Galwedigaethau - Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Mae cymaint o ansicrwydd yn ein byd ar hyn o bryd, ac mae hynny'n wir am ein bywyd eglwysig hefyd. Sut ydyn ni'n gallu parhau gydag - er enghraifft y broses o ddirnadaeth ar gyfer y rhai y mae Duw yn eu galw? Y mae Mark Ansell, Cyfarwyddwr Ymgeiswyr am y Weinidogaeth a Chydlynydd Darllenwyr Lleyg yn ateb y cwestiwn:

Yr ateb yw, fel llawer o bethau eraill gyda'n heglwysi, ein bod ni'n parhau, ond ar-lein.

Erbyn hyn y mae tîm o ymgynghorwyr galwedigaethau yn ein hesgobaeth, sy'n barod i gwrdd â chi – ar-lein ar hyn o bryd – os ydych chi'n meddwl am unrhyw fath o weinidogaeth trwyddedig yn yr Eglwys yng Nghymru.

Ar ôl siarad â'ch ficer, y cam cyntaf yw cysylltwch â fi, sef cydlynydd yr ymgynghorwyr, a byddaf yn eich rhoi chi yn nwylo yr ymgynghorydd agosaf atoch. Byddwch chi'n cwrdd i drafod y broses, dros gyfnod o amser, gan roi amser i chi fyfyrio, gweddïo, darllen ac astudio.

Ar ôl i chi gwrdd ag ymgynghorydd arall, wedyn byddwch chi'n gweithio gyda'r cyfarwyddwr ymgeiswyr am y weinidogaeth neu gyfarwyddwr darllenwyr lleyg, cyn symud ymlaen i gwrdd â'r Esgob.

Bydd cyfle wedyn i brofi eich galwedigaeth mewn cynhadledd preswyl gydag arbenigwyr dirnadaeth.

Os fydd pethau'n gweithio allan, byddwch yn symud ymlaen i ddechrau hyfforddiant penodedig i chi.

Ar hyn o bryd y mae'r broses yn parhau, er bod y cyfarfodydd (a'r hyfforddiant) ar-lein.

Felly os ydych chi'n teimlo bod Duw yn eich galw chi i'w wasanaeth yn yr Eglwys, peidiwch ag oedi! Nid oes angen aros nes i bopeth ddychwelyd i "normal", rydym yn gallu dechrau'r broses nawr.

Cysylltwch â mi: e-bost mark@stmikes.net; tel 01970 617184